# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Allerton Lodge**

**Allerton Cottage**
**Naid y March**
**Treffynnon**
**CH8 8LG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/01/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Allerton Lodge

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Deen Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 8 Chwefror 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r rhyngweithio rhwng y bobl a'r staff yn gynnes, cyfeillgar a llawn parch. Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gwasanaeth y maent yn ei gael ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff sy'n eu cefnogi. Ar y cyfan, mae'r cynlluniau personol yn adlewyrchu'r ffordd yr hoffai'r person gael ei gefnogi, ac mae asesiadau risg ar waith. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cymorth pan fyddant am ei gael, ac nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu rhuthro. Mae digon o ddewis ar gael ar y fwydlen a chadarnhaodd y bobl fod y bwyd yn rhagorol. Nid oes digon o staff ar ddyletswydd i gynnal gweithgareddau gyda'r bobl gan eu bod yn brysur yn ymgymryd â thasgau eraill yn y cartref. Caiff y staff gofal eu recriwtio mewn ffordd ddiogel; mae angen gweithredu er mwyn gwneud yn siŵr bod y staff yn cael hyfforddiant priodol a sesiynau goruchwylio rheolaidd. Mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer storio a chofnodi meddyginiaeth.

Mae'r profiad bwyta yn gadarnhaol, mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn gynnes ac yn lân, ac yn diwallu anghenion y bobl. Mae rhaglen adnewyddu barhaus ar waith. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn bersonol i'r person sy'n defnyddio'r ystafell. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd, ond gellid gwella ei adroddiadau ar ansawdd y gofal er mwyn cynnwys mwy o fanylion. Mae systemau cynnal a chadw ar waith i sicrhau bod risgiau i iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu nodi, ond nid ymdrinnir â rhai materion mewn modd amserol.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gwneud dewisiadau am y rhan fwyaf o'r agweddau ar eu gofal yn y cartref. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael penderfynu pryd i godi a phryd i fynd i'r gwely, a beth i'w wneud yn ystod y dydd. Pan wnaethom gyrraedd y cartref, gwelsom fod y bobl yn cael cymorth i baratoi ar gyfer y diwrnod ar gyflymder a oedd yn addas iddynt. Cynigir dewis o brydau cartref ffres, ac o fewn rheswm, caiff unrhyw geisiadau eraill eu bodloni; cafodd hyn ei gadarnhau gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw. Caiff ystafelloedd y bobl eu personoli â'u ffotograffau eu hunain a phethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r staff yn gwrtais ac yn gyfeillgar tuag at y bobl ac yn parchu eu dewisiadau. Gwelsom fod y staff yn ymdrin â'r bobl mewn ffordd serchog. Mae'r staff yn defnyddio tôn llais llawn parch wrth siarad â'r bobl ac yn eu helpu mewn ffordd addfwyn. Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn canmol natur ofalgar pob aelod o'r staff, ac yn dweud eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn y cartref. Mae angen gwella'r lefelau staffio er mwyn rhoi amser i'r staff gynnal gweithgareddau, ac i'r bobl gael cyfle i gymryd rhan yn y gweithgareddau hynny.

Caiff iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl eu monitro, a chaiff gofal iechyd ei drefnu pan fo angen. Mae'r cofnodion gofal yn adlewyrchu anghenion gofal yr unigolyn i raddau helaeth, ac ar y cyfan, caiff atgyfeiriadau eu gwneud i amrywiaeth o weithwyr proffesiynol fel deietegydd a meddyg teulu. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod rhedlif yn dod o lygaid un unigolyn a bod angen sylw meddygol arno, ac nid oedd y ciropodydd wedi ymweld â'r cartref ers cryn amser. Dywedodd y bobl wrthym fod croeso i aelodau o'u teulu neu eu ffrindiau ymweld ar unrhyw adeg, a gwelsom ymwelwyr drwy gydol ein hymweliad. Mae hyfforddiant ar gael i'r staff gofal; ond nid yw pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf i'w galluogi i ddiwallu anghenion y bobl yn y gwasanaeth yn effeithiol. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff yn *"amazing"*, *"the staff are nice, very professional"*, *"we can have a laugh with them"* a *"we are very fond of them all"*.

Ar y cyfan, mae trefniadau ar waith i ddiogelu'r bobl. Wrth edrych ar y cofnodion, gwelsom nad oedd rhai aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu pobl rhag camdriniaeth. Mae polisi diogelu ar waith i'r staff ei ddefnyddio os bydd angen. Mae'r cofnodion recriwtio yn cadarnhau bod gwiriadau wedi cael eu cynnal i wneud yn siŵr bod unigolion yn addas i weithio yn y cartref. Ar y cyfan, mae'r cofnodion gofal yn dangos bod anghenion cymorth y bobl yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw newidiadau eu hesgeuluso. Gwnaethom nodi rhywfaint o wybodaeth groes mewn sampl bach o'r cynlluniau personol. Caiff cymorth ei roi pan fo'i angen, a hynny mewn ffordd ddigynnwrf heb ruthro â'r staff yn ymgysylltu mewn ffordd hwyliog â'r bobl y maent yn eu cynorthwyo. Mae angen gwella'r trefniadau llywodraethu fel archwiliadau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau mewn modd amserol ac mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer archwilio a dadansoddi cwympiadau hefyd. Ni chafodd sesiynau goruchwylio staff eu cynnal bob tri mis

yn unol â'r gofynion. Mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer cofnodi a storio meddyginiaeth o hyd.

Mae'r ardaloedd byw yn cefnogi llesiant y bobl. Mae'r dodrefn yn lân ac yn gyfforddus ac o ansawdd da. Mae'r llawr yn rhai o'r ystafelloedd gwely wedi rhwygo ac wedi crafu; cafodd y mater hwn eisoes ei nodi gan y rheolwr gweithrediadau a'r Unigolyn Cyfrifol ac mae camau ar waith i ymdrin ag ef. Mae rhaglen ailaddurno dreigl ar waith. Mae digon o le yn ystafelloedd gwely'r bobl ac maent wedi'u personoli. Mae ganddynt olygfeydd o'r ardd fawr. Mae'r gwasanaeth yn lân ac yn gartrefol ac mae gwaith cynnal a chadw'n cael ei gwblhau i sicrhau bod y bobl yn byw mewn amgylchedd a gynhelir yn dda. Dylid sicrhau bod cyfarpar diogelu personol (PPE) yn cael ei storio'n ddiogel o'r golwg ac na chaiff cynnyrch ymolchi eu rhannu. Caiff y cyfarpar ei wasanaethu'n rheolaidd a'i gynnal a'i gadw er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn ddiogel.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen ac sydd orau ganddynt, ac mae gwasanaethau gofal iechyd cymunedol ar gael iddynt. Caiff y bobl eu hatgyfeirio at ymarferwyr cyffredinol a chânt ofal nyrsio a gofal iechyd arall gan wasanaethau cymunedol. Caiff camau prydlon eu cymryd os byddant yn sâl neu os bydd pryder yn datblygu am eu hiechyd. Nodwyd gennym ar un achlysur fod rhedlif yn dod o lygaid un unigolyn a bod angen sylw meddygol arno. Nid ymatebwyd i'r mater hwn hyd nes i ni dynnu sylw'r rheolwr gweithrediadau ato. Caiff pwysau a deiet y bobl eu monitro. Mae'r staff yn monitro'r bobl sy'n wynebu risg o friwiau pwyso ac yn cofnodi bob tro y cânt eu symud; fodd bynnag, mae angen gwelliannau i ddangos bod y gofal a ragnodir yn cael ei gofnodi'n gywir. Nid yw'r triniwr gwallt na'r ciropodydd wedi ymweld â'r cartref ers cryn amser a gwelsom fod gwallt rhai o'r preswylwyr yn hir a bod angen ei dacluso. Roedd angen torri ewinedd bysedd un unigolyn. Mae'r rheolwr gweithrediadau wedi cadarnhau ers yr arolygiad ei fod wedi trefnu i'r ddau ymweld â'r cartref. Mae'r cofnodion yn dangos ar y cyfan bod y bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd ac mae'r gweithwyr gofal sy'n gyfrifol am roi meddyginiaeth wedi cael hyfforddiant. Mae angen gweithredu o hyd mewn perthynas â chofnodi meddyginiaeth a chadw meddyginiaeth yn ddiogel. Mae'r materion hyn yn parhau i gael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

Nid oes digon o staff wedi'u cyflogi i ddarparu gweithgareddau ysgogi cadarnhaol. Ni welsom unrhyw esiampl o'r staff yn darparu unrhyw weithgareddau, ond roeddent yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd gadarnhaol ac yn gweithio'n galed i ddiwallu anghenion gofal y bobl. Ni welsom unrhyw weithgareddau yn cael eu cynnal yn ystod ein hymweliad ac nid oes unrhyw swyddog gweithgareddau wedi'i benodi na chynllunydd gweithgareddau yn cael ei ddefnyddio. Disgwylir i'r staff gyflawni'r rôl hon cystal ag y gallant yn ychwanegol at eu dyletswyddau gofalu, eu dyletswyddau domestig a'u dyletswyddau golchi dillad. Cadarnhaodd y preswylwyr a'r staff nad oes unrhyw weithgareddau yn cael eu cynnal, gan ddweud nad oes llawer yn digwydd. Gwelsom fod y staff wedi nodi brwsio gwallt unigolyn fel gweithgaredd. Gwelsom fod un unigolyn yn mynd allan am ginio ac roedd unigolyn arall yn mynd allan i weld ei ffrindiau ac i ymweld â'i driniwr gwallt ei hun. Roedd y ddau breswylydd wedi trefnu'r gweithgareddau hyn eu hunain.

Roedd y cofnodion yn dangos bod bwydlen amrywiol yn cael ei chynnig, a chafodd hyn ei gadarnhau gan y bobl. Mae'r cogydd yn ymwybodol o hoff bethau a chas bethau'r bobl ac yn wybodus iawn am ddewisiadau'r bobl. Prydau cartref yw pob pryd a defnyddir cynhyrchion o ansawdd da wedi'u prynu'n lleol, lle y bo'n bosibl. Gwelsom fod digonedd o gynhyrchion yn y gegin ac yn y rhewgelloedd. Roedd y pryd ganol dydd wedi'i gyflwyno'n dda, roedd arogl hyfryd arno ac roedd digon o fwyd i bawb. Dywedodd y bobl wrthym eu bod wedi mwynhau eu pryd, a'u bod yn eu mwynhau bob dydd. Roedd y bobl yn canmol y cogydd ac yn dweud hefyd eu bod yn edrych ymlaen at weld y cogydd am sgwrs. Mae

amrywiaeth o fyrbrydau a diodydd ar gael drwy gydol y dydd. Cynhelir nosweithiau thema bob trydydd dydd Iau ac mae'r opsiynau yn cynnwys noson pysgod a sglodion neu noson cebab. Dywedodd y bobl eu bod yn edrych ymlaen at y nosweithiau hyn.

Ar y cyfan, gall y bobl fod yn hyderus bod cynllun cyfredol ar waith yn nodi sut y dylid darparu eu gofal er mwyn diwallu eu hanghenion. Nodwyd gennym fod y cofnodion yn gynhwysfawr; yn ogystal â nodi'r anghenion gofal, roeddent hefyd yn nodi gwybodaeth am fywyd/anghenion meddygol a hanes yr unigolyn. Caiff y cynlluniau eu hategu gan asesiadau risg, ond mae angen gwella'r cynlluniau rheoli, fel y cynlluniau atal cwympiadau, yn sylweddol. Gwelsom fod yr asesiadau risg a'r cynlluniau personol yn cael eu hadolygu bob mis neu'n amlach, fel sy'n ofynnol pan fo anghenion y bobl yn newid.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn gyfforddus ac ar y cyfan, caiff ei gynnal a'i gadw. Mae ystafelloedd ar gael ar ddau lawr a chaiff yr ystafelloedd gwely eu personoli i wahanol raddau a hynny'n seiliedig ar ddewisiadau personol y bobl. Roedd pob rhan o'r cartref yn gynnes, yn lân, yn daclus, wedi'i haddurno'n hyfryd ac yn cynnwys dodrefn cyfforddus. Cadarnhaodd y bobl fod y cartref yn gynnes, yn lân ac yn gyfforddus a'u bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn Allerton Lodge. Gwelsom fod y bobl yn gyfforddus ac yn gartrefol â'u heiddo personol o'u cwmpas. Roedd digonedd o sebon, tywelion llaw a bin pedal ym mhob ystafell ymolchi a thŷ bach. Cadarnhaodd y rheolwr gweithredol a'r swyddog cynnal a chadw eu bod wedi prynu tywelion llaw bioddiraddiol yn ddiweddar gan fod rhai o'r preswylwyr wedi rhoi tywelion llaw yn y toiled yn ddiweddar, gan achosi rhwystr yn y system ddraenio. Mae ieir yn crwydro'n rhydd yn yr ardd er mwyn cynnig diddordeb ychwanegol yno.

Ceir tystiolaeth o waith adnewyddu parhaus er mwyn cynnal safonau a'u gwella. Fodd bynnag, mae angen gwella rhai ardaloedd ar unwaith, gan gynnwys y llawr mewn dwy ystafell wely. Cadarnhaodd yr Unigolyn Cyfrifol ei fod eisoes wedi nodi'r ardaloedd hyn fel ardaloedd yr oedd angen sylw arnynt ac mae cynllun ar waith i brynu deunydd ar gyfer llawr newydd. Nodwyd bod rhai nwyddau ymolchi i'w rhannu wedi'u storio yn yr ystafelloedd ymolchi cymunedol sy'n peri risg y caiff heintiau eu lledaenu. Mae cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff ym mhob rhan o'r cartref ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Nid yw'r cypyrddau storio lle caiff y cyfarpar diogelu personol ei gadw, yn yr ystafelloedd ymolchi yn bennaf, bob amser eu cloi pan na fyddant yn cael eu defnyddio. Gallai rhai o'r bobl sy'n byw yn y cartref fynd â'r eitemau hyn, a allai achosi perygl o dagu pe byddent yn eu llyncu. Mae'r rhain yn feysydd i'w gwella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Ar y cyfan, mae darparwr y gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Mae'r adeilad yn ddiogel. Gofynnir i ymwelwyr gofrestru wrth gyrraedd ac wrth adael ac mae cloeon bysellbad ar y drysau yn yr ardaloedd lle mae'r bobl yn arbennig o agored i niwed. Gwelsom fod yr holl wiriadau diogelwch yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd. Mae'r gwaith gwasanaethu gofynnol wedi'i gynnal ar y dyfeisiau a'r cyfarpar. Roedd tystiolaeth o hyn yn y sampl o gofnodion a welsom. Roedd hyn yn cynnwys cynnal a chadw cyfarpar codi a symud, dyfeisiau nwy a gosodiadau trydanol. Cymerir camau i sicrhau diogelwch tân drwy brofi cyfarpar tân a goleuadau a hyfforddi'r staff, ac mae cynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar gael i bawb sy'n byw yn y gwasanaeth. Rhoddwyd sgôr hylendid bwyd o 4 (da) i'r cartref yn ddiweddar. Mae'r ystafell golchi dillad yn daclus ac yn drefnus ac mae gan bob unigolyn ei fasged ddillad ei hun. Mae cyfleusterau golchi a sychu addas a chaiff eitemau glân ac eitemau brwnt eu cadw ar wahân. Caiff gweithiwr cynnal a chadw ei gyflogi'n rhan amser yn y gwasanaeth i ymgymryd â gwaith cyffredinol. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant Diogelwch Tân ac Iechyd a Diogelwch.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i wneud yn siŵr y caiff y gwasanaeth ei redeg yn dda, ond mae angen gwella'r trefniadau hyn. Mae trefniadau rheoli newydd yn cael eu cyflwyno yn y gwasanaeth ar hyn o bryd a chafodd rheolwr interim newydd ei benodi yn y byr dymor. Y rheolwr gweithredol sy'n rheoli'r gwasanaeth ar hyn o bryd, ac mae hefyd yn cefnogi dau gartref arall sy'n eiddo i'r un darparwr. Penodwyd uwch-reolwyr newydd hefyd yn ogystal ag arbenigedd cwmni datrys trafferthion er mwyn helpu i nodi sut y gellid gwella'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn llunio adroddiad ar ei ganfyddiadau bob tri mis. Fodd bynnag, ni chafodd y gwasanaeth ei oruchwylio'n ddigonol i ymdrin â'r achos o ddiffyg cydymffurfio sy'n bodoli o hyd ers yr arolygiad blaenorol, a nodwyd meysydd newydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn mewn perthynas â hyfforddi staff a goruchwylio staff. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth mewn perthynas â diffyg goruchwyliaeth y darparwr dros y gwasanaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae adroddiad o adolygiad o Ansawdd y Gofal ar gyfer y gwasanaeth â dyddiad mis Chwefror 2022 arno; ond nid yw hyn yn bodloni'r gofyniad, sef bob chwe mis. Rhoddodd yr adroddiad diwethaf adborth ar yr hyn y mae'r staff a'r bobl wedi'i ddweud o ran teimlo'n ddiogel, a'r ffaith eu bod yn cael dewis eu trefniadau gofal dyddiol a'u bod yn cael dewisiadau ar y fwydlen. Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o'r data ar ddigwyddiadau a digwyddiadau hysbysadwy. Cwblhawyd archwiliadau diweddaraf y cartref o ran iechyd a diogelwch, cynllunio gofal a chadw tŷ ym mis Hydref 2022, ond dylid cynnal yr archwiliadau hyn bob mis. Ni welsom dystiolaeth ychwaith bod croesau cwympiadau, archwiliadau o gwympiadau na dadansoddiadau o gwympiadau yn cael eu cwblhau er mwyn dysgu gwersi a gwneud gwelliannau. Ar y cyfan, rhoddir gwybod i'r rheoleiddiwr (AGC) am ddigwyddiadau hysbysadwy mewn modd amserol, ond nodwyd gennym fod rhai digwyddiadau na roddwyd gwybod amdanynt hyd nes y tynnwyd sylw'r Unigolyn Cyfrifol atynt yn ystod yr arolygiad. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae'r rhain yn feysydd i'w gwella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu mewn perthynas â'r adroddiad o'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal a hysbysiadau i AGC.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sy'n cael eu recriwtio mewn ffordd addas ond nid ydynt bob amser yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol. Caiff y gweithwyr gofal eu fetio adeg recriwtio. Edrychwyd ar ffeiliau recriwtio tri aelod o'r staff fel rhan o'r arolygiad. Roedd y ffeiliau a welsom yn drefnus ac yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol. Roedd yr hyfforddiant a roddwyd i'r staff yn cynnwys y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Rhoi Meddyginiaeth, Hylendid Bwyd a Rheoli Heintiau. Mae angen hyfforddiant mwy arbenigol i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref, gan gynnwys bwyd ac ansawdd deiet dysffagia, diogelu, codi a chario, atal cwympiadau mewn gofal a

hyfywedd meinwe'r croen. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth mewn perthynas â hyfforddi staff. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Nid yw'r bobl bob amser yn cael eu cefnogi gan staff sy'n cael sesiynau goruchwylio ffurfiol gan eu rheolwr i'w cefnogi yn eu rôl. Ni welsom dystiolaeth bod sesiynau goruchwylio staff ffurfiol wedi cael eu cynnal a chadarnhaodd y rheolwr gweithredol fod y maes hwn yn faes i'w wella. Cafwyd cadarnhad ar ôl yr arolygiad fod y maes hwn bellach yn cael blaenoriaeth, a bod pob aelod o'r staff wedi cael gwahoddiad i fynychu sesiwn goruchwylio unigol a bod cymorth yn cael ei roi i'r staff bob dydd. Fodd bynnag, mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Ni chaiff y bobl bob amser eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu niferoedd priodol o staff. Roedd y rotas staff a welsom a'n harsylwadau ar ddiwrnod ein hymweliad yn dangos nad oes digon o staff i ddiwallu holl anghenion y bobl yn y gwasanaeth. Mae risg uchel y bydd rhai o'r preswylwyr yn cwympo ac mae angen eu gwylio'n ofalus. Ni chaiff adnodd asesu dibyniaeth ei ddefnyddio a fyddai'n galluogi'r Unigolyn Cyfrifol i bennu lefelau staffio diogel yn y cartref. Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi nodi'r angen i sicrhau bod trefniadau staffio digonol ar waith gan fod y staff yn brysur yn ymgymryd â thasgau domestig pan na fydd yr aelod o staff domestig yn y gwaith, ac mae'r staff hefyd yn ymgymryd â dyletswyddau golchi dillad. Nid oes gan y staff amser i gynnal gweithgareddau cadarnhaol i'r bobl yn y cartref. Gwnaethom gydnabod bod prinder cenedlaethol o staff yn y sector gofal ac mae'r darparwr wrthi'n ceisio recriwtio staff ac yn gweithio'n galed i ddefnyddio ffyrdd arloesol o recriwtio aelodau newydd o staff, ond mae'n ei chael hi'n anodd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Nid yw'r darparwr wedi gwneud yn siŵr bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un bob tri mis ac nid yw'r staff wedi cael hyfforddiant i'w galluogi i ddiwallu anghenion y bobl y maent yn gofalu amdanynt mewn ffordd ddiogel. | Newydd |
| 66 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi goruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli'n effeithiol. | Newydd |
| 21 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn llwyddo i sicrhau bod digon o staff gofal ar ddyletswydd i gynnal gweithgareddau â'r preswylwyr, ac nid yw wedi dangos bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth o ansawdd cyson sydd eu hangen i ddiwallu eu | Heb Gyflawni |

| | | |
|---|---|---|
| | hanghenion ac i hyrwyddo, diogelu a chynnal eu hiechyd a'u llesiant. | |
| 58 | Mae'r arferion presennol ar gyfer storio, cadw cofnodion a rhoi meddyginiaeth yn dangos nad yw darparwr y gwasanaeth yn dilyn y canllawiau arferion gorau presennol ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau. | Heb Gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 60 | Mae'r unigolyn cyfrifol wedi methu â hysbysu'r rheoleiddiwr (AGC) am ddau ddigwyddiad sy'n adroddadwy o dan Reoliad 60. | Newydd |
| 44 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau nad oes peryglon yn yr adeilad ac mae angen adnewyddu lloriau rhai o'r ystafelloedd gwely. | Newydd |
| 80 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi cwblhau adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis. Nid yw'r adroddiad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/03/2023